Cynllun Cymorth Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

# Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2024-2025










# Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS)

YMDDIRIEDOLAETH GIG
PRIFYSGOL FELINDRE

DRWY

BARTNERIAETH CYDWASANAETHAU
GIG CYMRU

A

GWASANAETHAU CANSER
FELINDRE

GIG Cymru NHS Wales | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Velindre University NHS Trust

GIG Cymru NHS Wales | Partneriaeth Cydwasanaethau | Shared Services Partnership

Canolfan Ganser Felindre
Velindre Cancer Centre

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
Wales Infected Blood Support Scheme

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

# Cynnwys


**04** Cyflwyniad

**04** Pwrpas yr adroddiad

**05** Materion allweddol yn codi yn ystod 2024-2025

**05** Adroddiad Yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig

**08** Grŵp Llywodraethu

**10** Cymorth Ariannol

**10** Y Broses Apelio

**12** Gweithgarwch Buddiolwyr 2024-2025

**13** Cyfraddau Talu

**14** Taliadau Plant

**15** Strwythur Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru

**16** Adroddiad Cyllid

**16** Costau Rhedeg

**17** Adroddiad Perfformiad

**19** Ceisiadau Newydd am Gymorth Ariannol

**19** Grantiau Cefnogaeth a Chymorth

**20** Gwasanaeth Hawliau Llesiant

**20** Yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA)

**21** Cylchlythyrau

**22** Astudiaeth Achos A

**23** Astudiaeth Achos B

**24** Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant Emosiynol

**24** Rhagolwg – Y pethau y byddwn yn eu gwneud yn 2025-2026



# Cyflwyniad

***Wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2017, bwriad Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) yw darparu cymorth i bobl sydd wedi'u heintio â Hepatitis C a/neu HIV yn dilyn triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG.***

Ar ôl cymryd yr awenau gan gynlluniau presennol y DU (Ymddiriedolaeth Eileen, Ymddiriedolaeth Macfarlane, MFET Ltd, Cronfa Skipton a Sefydliad Caxton), sydd bellach yn cael eu hadnabod fel sefydliadau Alliance House (AHOs), nod Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yw cynnig gwasanaeth taliadau ariannol symlach a chymorth wedi'i deilwra i fuddiolwyr Cymru. Mae WIBSS hefyd yn cynnig Gwasanaeth Hawliau Llesiant a Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant pwrpasol.

Ar 31 Mawrth 2025, bydd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn cefnogi 231 o fuddiolwyr, sy'n cynnwys personau priod a phartneriaid mewn profedigaeth. Darperir cymorth gan y tîm llesiant a seicolegol hefyd i aelodau teulu ehangach ein buddiolwyr.

# Pwrpas yr Adroddiad

- Rhoi diweddariad ar y gwasanaethau cyllid a chymorth a ddarparwyd yn ystod 2024-25 fel rhan o Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru.
- Manylu ar y gwaith rhagweithiol a wnaed gan y Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn ystod 2024-25.
- Edrych ymlaen at flaenoriaethau'r Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru sy'n berthnasol i 2025-26.

# Materion allweddol yn codi yn ystod 2024-25

Dychwelodd y ffordd y darperir gwasanaethau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru i'r arfer yn ystod 2023-24 yn dilyn rhai addasiadau gofynnol, o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Er bod staff wedi parhau i weithio'n hyblyg, ailgychwynnwyd ymweliadau cartref ac apwyntiadau wyneb yn wyneb.  Ni wnaed newidiadau mawr i'r gwasanaeth, ond arweiniodd cyhoeddi Adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ar 20 Mai 2024 at waith ychwanegol sylweddol i'r tîm. Roedd hyn yn cynnwys talu taliadau iawndal dros dro ychwanegol a chyflwyno Taliadau Iawndal Dros Dro Gwaed Heintiedig i Ystadau ym mis Hydref 2024.  Roedd sefydlu'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA) gan Lywodraeth y DU, i weinyddu'r taliadau iawndal, hefyd yn cynnwys llawer o ymglymiad gan y tîm.

## Ymchwiliad Cyhoeddus – Yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig

*Ymchwiliad statudol cyhoeddus annibynnol yw hwn a sefydlwyd i archwilio'r amgylchiadau pan roddwyd gwaed heintiedig a chynhyrchion gwaed heintiedig i ddynion, menywod a phlant a gafodd driniaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y Deyrnas Unedig o 1970 ymlaen. Syr Brian Langstaff sy'n Cadeirio'r Ymchwiliad.*

Cydweithiodd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn llawn â'r ymchwiliad ac ymatebodd i bob cais Rheol 9 o fewn yr amserlen ofynnol.

Ar 5 Ebrill 2023 cyhoeddodd y Cadeirydd adroddiad interim ar iawndal. Dywedodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig y byddent yn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, ochr yn ochr â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad terfynol.

**Yr Ail Adroddiad Interim | Yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig**

Ar 3 Chwefror 2023, caeodd Cadeirydd yr Ymchwiliad wrandawiadau cyhoeddus yr Ymchwiliad, gan egluro y byddai'n canolbwyntio'n awr ar ysgrifennu ei adroddiad. Cynhaliwyd rhai gwrandawiadau ychwanegol ym mis Gorffennaf 2023.

*Cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad ar 20 Mai 2024.*

**Adroddiad yr Ymchwiliad | Yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig**

Ar 21 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gynllun Iawndal a sefydlu Corff Hyd Braich (ALB) newydd i weinyddu'r cynllun iawndal, o'r enw Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA).



[Infected Blood Compensation Scheme Summary - GOV.UK]

Diweddarwyd gwefan Yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig gyda dolen i dudalen lanio'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig, Adroddiad Terfynol yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig a dolen i wybodaeth i bobl "iach sy'n poeni".

Arweiniodd cyhoeddi'r adroddiad terfynol a'r cyhoeddiad am y cynllun iawndal at gynnydd sylweddol yn nifer y galwadau i dîm Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru gan bobl sy'n hysbys ac yn anhysbys i ni.

Cynhaliwyd dadl yn y Senedd ar 4 Mehefin, mewn ymateb i adroddiad yr Ymchwiliad ac i drafod sut y byddai'n berthnasol i Gymru. Yn ystod y ddadl, galwyd ar Lywodraeth Cymru gytuno i barhau i wneud y taliadau rheolaidd i fuddiolwyr, hyd yn oed ar ôl iddynt gael iawndal, oherwydd bod rhai o fuddiolwyr iau Hep C Cam 1 yn teimlo y gallent fod yn waeth eu byd ar ôl i'r iawndal gael ei dalu.

Ar 21 Mai, gofynnodd Llywodraeth Cymru, ar ran Llywodraeth y DU, i Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru wneud taliadau iawndal dros dro pellach o £210,000 cyn diwedd mis Mehefin. Dim ond i fuddiolwyr "heintiedig" byw yr oedd y taliadau hyn. Anfonwyd llythyrau at y rhai yr effeithiwyd arnynt.

Cyn gwneud y taliadau, anfonwyd ail lythyr at fuddiolwyr i esbonio beth oedd pwrpas y taliad a sut y bydd yn effeithio ar iawndal yn y dyfodol. Ni fyddai'r taliadau'n destun prawf modd nac yn dwyn goblygiadau treth.

Bydd yr Awdurdod Iawndal newydd yn rhoi sylw i'r taliadau yn ymwneud â Hep B. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai newidiadau'n cael eu gwneud i feini prawf presennol Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru. Parhaodd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru i ystyried ceisiadau gan y rhai a oedd yn bodloni meini prawf y cynllun. Fel y cytunwyd, ar draws pedwar Llywodraeth y DU, caeodd yr holl gynlluniau cymorth i geisiadau newydd ar 31 Mawrth '25.

Ym mis Awst, gosododd Llywodraeth y DU reoliadau i sefydlu'r Cynllun Talu Iawndal Interim Gwaed Heintiedig, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024. Bydd y rheoliadau hyn yn rhoi'r pwerau i'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA) dalu iawndal drwy'r Llwybr Craidd i bobl heintiedig, byw a marw, fel y nodir yng Nghrynodeb y Cynllun Talu Iawndal Interim Gwaed Heintiedig: Awst 2024. Roedd y Llywodraeth yn disgwyl i'r IBCA ddechrau gwneud taliadau i bobl heintiedig erbyn diwedd 2024, a chyflawnwyd y disgwyliad hwn.



Ar 24 Hydref, lansiodd IBCA y Taliadau Iawndal Dros Dro Gwaed Heintiedig i Ystadau (IBIEP). Roedd hyn ar gyfer ystadau pobl a fu farw pan oeddent wedi cofrestru gyda Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig (IBSS) cyfredol neu Gynllun "Alliance House" ar neu cyn 17 Ebrill 2024. Nid oedd y person a fu farw, ei bartner mewn profedigaeth na'i ystad eisoes wedi derbyn taliad iawndal dros dro o £100,000, ac roedd y person yn byw yn y DU neu Weriniaeth Iwerddon ar adeg ei farwolaeth. Gofynnodd Llywodraeth Cymru, ar ran Llywodraeth y DU, i Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru weinyddu'r ceisiadau hyn ar gyfer yr ystadau hynny lle'r oedd yr ymadawedig heintiedig wedi'i heintio yng Nghymru.

Proseswyd cyfanswm o 37 o geisiadau gan Ystadau hyd at 31 Mawrth 2025. Roedd 23 yn llwyddiannus, gyda chyfanswm o £2,300,000, gwrthodwyd 6 cais oherwydd anghymhwystra ac roedd 8 arall ar y gweill ar y dyddiad diwedd-blwyddyn.

Yn ogystal â hyn, mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn cael cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cabinet y DU ac IBCA ynghylch sefydlu a gweinyddu'r corff newydd. Mae tri chytundeb rhannu data wedi'u rhoi ar waith i ganiatáu inni gael mynediad at y data gwaddol, y data profiant ac i rannu ein data gydag IBCA, i'w alluogi i ddechrau prosesu'r taliadau iawndal. Ym mis Tachwedd, ysgrifennom at bob un o'n buddiolwyr i'w hysbysu, er mwyn galluogi'r gwasanaeth iawndal fod mor syml â phosibl, y byddai Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn rhannu'r holl wybodaeth sydd gennym am dderbynwyr taliadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru gydag IBCA. Fe wnaethom nodi y byddai'r wybodaeth y byddem yn ei rhannu ag IBCA yn cynnwys manylion fel: enw, cyfeiriad a gwybodaeth gyswllt, math a difrifoldeb yr haint, a thaliadau a dderbyniwyd hyd yma. Fe wnaethom hefyd gynnig y dewis iddyn nhw i roi gwybod i ni os nad oedden nhw am i'w data gael eu rhannu.

Mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn aelod o Grŵp Goruchwylio IBI Llywodraeth Cymru sydd â'r dasg o sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu yng Nghymru lle bo angen. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ar draws y pedair gwlad. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru a Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Haemophilia Wales yn rheolaidd i glywed yn uniongyrchol am faterion a phryderon ein buddiolwyr ac i weithio gyda'n gilydd i'w datrys neu eu huwchgyfeirio i gyfarfodydd polisi'r pedair gwlad.





# Grŵp Llywodraethu

***Mae'r Grŵp Llywodraethu yn monitro rheolaeth weithredol WIBSS ac yn darparu trefn lywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer y cynllun, ar ran Llywodraeth Cymru (LlC) drwy Ymddiriedolaeth GIG Felindre.***

**Mae Grŵp Llywodraethu Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (GCF a PGCG) wedi'i awdurdodi i:**

- Ymchwilio i unrhyw waith o fewn ei Gylch Gorchwyl, ac wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd ganddo'r hawl, ar bob adeg resymol, i archwilio unrhyw lyfrau, cofnodion neu ddogfennau sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth, sy'n berthnasol i gylch gwaith y timau Llywodraethu, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodir gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

- Gall geisio unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arno gan unrhyw weithiwr, a chyfarwyddir pob gweithiwr i gydweithredu ag unrhyw gais rhesymol a wneir gan y Bwrdd.

**Mae wedi'i rymuso â chyfrifoldeb am y canlynol:**

- Adolygu a chynghori ar reolaeth cyllidebau WIBSS, gan gynnwys costau rhedeg, cyllidebau blynyddol y buddiolwyr a darpariaethau.

- Cynghori Llywodraeth Cymru ar newidiadau mewn cyfraddau a goblygiadau posibl newidiadau polisi o ran cyllid a gwasanaethau, yng Nghymru ac mewn ardaloedd eraill yn y DU.

- Gweithredu polisi Llywodraeth Cymru.

- Cyd-drafod a phartneriaeth barhaus gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth.

**Mae aelodaeth Grŵp Llywodraethu Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru fel a ganlyn:**

- Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
  Ymddiriedolaeth GIG Felindre (Cadeirydd)
- Cynrychiolydd Cyllid Llywodraeth Cymru
- Cyfarwyddwr Gweithrediadau
  Gwasanaethau Canser Felindre
- Cynrychiolydd Polisi Llywodraeth Cymru
- Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
  Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Uwch Reolwr Hawliau Lles
- Rheolwr Gwasanaethau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
- Seicolegydd Ymgynghorol

Yn ystod 2024-25 cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu ddwywaith ar 6 Mehefin 2024 a 30 Hydref 2024.



# Cymorth Ariannol

Mae'r cynllun yn cydnabod bod unigolion sy'n byw gyda hepatitis C a/neu HIV yn wynebu costau ychwanegol am bethau fel yswiriant, yswiriant teithio, costau gofal a chostau teithio i fynychu apwyntiadau ysbyty ac ati. Mae cymorth ariannol ar gael ar gyfer:

- Aelodau presennol y cynllun
- Aelodau o gynlluniau gwaddol blaenorol

Mae lefelau amrywiol o gymorth ariannol ar gael i fuddiolwyr y cynllun. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Adran Gyllid yr adroddiad hwn ac maent hefyd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.

Hafan - WIBSS (www.gig.cymru)

## Y Broses Apelio

Os bydd cais i ymuno â'r cynllun yn aflwyddiannus, gall ymgeisydd apelio os yw'n anghytuno â chanlyniad ei gais. Gwrandewir ar apeliadau gan banel o arbenigwyr meddygol annibynnol sydd â phrofiad clinigol perthnasol neu brofiad tebyg yn y maes.



Ni fydd apêl yn cael ei hystyried mewn achosion lle cydnabyddir nad yw'r ymgeisydd yn gymwys o dan y meini prawf cymhwysedd presennol, ond bod yr ymgeisydd yn anghytuno â'r meini prawf hynny (mewn achosion o'r fath, dim ond os bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno i ddiwygio'r meini prawf cymhwysed y gellir ailystyried y cais).

Yn ystod 2024-25, cynullwyd un panel apeliadau. Ystyriodd bedwar apêl. Ystyriodd y panel yr holl ddogfennaeth a dderbyniwyd gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru gan yr ymgeiswyr a chraffodd ar broses benderfynu Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru. Yna ystyriodd y panel yr holl dystiolaeth. Siaradodd y panel â'r apelwyr hefyd. Roedd dau o'r apeliadau'n llwyddiannus a dau arall yn aflwyddiannus.



## Apêl 1

Yn yr achos cyntaf, teimlai'r panel fod y dystiolaeth ynghylch derbyn trallwysiad gwaed yn amgylchiadol yn anffodus, ac y byddai'r rheswm honedig dros yr angen am drallwysiad yn cael ei ystyried yn debygolrwydd isel. Ystyriodd y panel hefyd y mater o dderbyn Anti-D. Y consensws oedd na ellid cadarnhau'r apêl, yn seiliedig ar feini prawf presennol Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru. Mae'r panel yn deall bod y defnydd o Anti-D fel dull heintio yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan IBCA. Felly, efallai y bydd yr apelydd yn gymwys i gael iawndal ganddynt.

## Apêl 2

Ni ellid cadarnhau'r apêl hon oherwydd nad oedd digon o dystiolaeth o drallwysiad gwaed, ac nid oedd y panel o'r farn y byddai'r driniaeth a arweiniodd at drallwysiad yn gofyn am drallwysiad fel mater o drefn. Yn ogystal â hyn, ystyriodd y panel fod y dystiolaeth bod yr apelydd wedi cael gwybod gan feddyg fod trallwysiad gwaed wedi digwydd yn amgylchiadol yn anffodus. Argymhellodd y panel y dylai Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru geisio dod o hyd i'r meddyg dan sylw, ac os caed hyd iddi a'i bod yn fodlon gwneud datganiad yn cefnogi'r honiad bod trallwysiad gwaed wedi digwydd, y byddent yn ailystyried yr apêl hon.

## Apêl 3

Roedd y panel o'r farn unfrydol bod y mecanwaith a'r math o anaf yn debygol iawn o fod wedi arwain at drallwysiad gwaed ac y dylid cadarnhau'r apêl.

## Apêl 4

Unwaith eto, roedd y panel yn unfrydol bod y mecanwaith a'r math o anaf a gafwyd yn rhoi tebygolrwydd rhesymol y bu angen trallwysiad gwaed ac ystyriwyd y datganiad tyst newydd yn dystiolaeth gefnogol ychwanegol. Felly, cafodd yr apêl ei chadarnhau.

Hysbyswyd pob apelydd am y penderfyniadau a wnaed gan y panel.

## Gweithgarwch Buddiolwyr 2024-25

**Mae 231 o fuddiolwyr a phartneriaid mewn profedigaeth wedi'u cofrestru ar gyfer cymorth trwy'r cynllun. Rhennir hyn i'r grwpiau canlynol. (Yn ddilys ar 31 Mawrth 2025).**

| Grŵp Buddiolwyr | Nifer y Buddiolwyr cofrestredig |
|---|---|
| Hepatitis C Cam 1 | **36** |
| Hepatitis C Cam 1+ Uwch | **92** |
| Hepatitis C Cam 2 | **35** |
| HIV | **2** |
| HIV a Hep C Cam 1 (Cyd-heintiedig) | **1** |
| HIV a Cham 1+ Uwch (Cyd-heintiedig) | **13** |
| HIV a Hep C Cam 2 | **2** |
| Priod/partner mewn profedigaeth | **50*** |
| Taliadau Plant | **20** |

**Caiff 2 fuddiolwr eu dosbarthu fel buddiolwyr presennol ac fel priod/partner mewn profedigaeth.*

## Cyfraddau Talu 2024-25

**Mae lefelau'r taliadau sydd ar gael i fuddiolwyr yn 2024/25 wedi'u nodi yn y tabl isod.**

| Grŵp Buddiolwyr | Taliadau Blynyddol |
|---|---|
| Hepatitis C Cam 1 | **£22,905** |
| Hepatitis C Cam 1+ Uwch | **£34,736** |
| Hepatitis C Cam 2 | **£34,736** |
| HIV | **£34,736** |
| HIV a Hep C Cam 1 (Cyd-heintiedig) | **£47,150** |
| HIV a Cham 1+ Uwch (Cyd-heintiedig) | **£54,590** |
| HIV a Hep C Cam 2 (Cyd-heintiedig) | **£54,590** |
| Taliad Plant; Plentyn 1af | **£3,000** |
| Taliad Plant; 2il Blentyn a Phlant Dilynol | **£1,200** |

Mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn talu taliadau blynyddol bob mis neu bob chwarter, yn dibynnu ar ddewis y buddiolwr. Gwneir taliadau ar yr 20fed o'r mis. Pan fydd yr 20fed yn disgyn ar ŵyl banc neu benwythnos, y diwrnod gwaith agosaf cyn yr 20fed fydd y taliad.

Telir cyfandaliadau untro annewisol hefyd i ymgeiswyr newydd llwyddiannus i'r cynllun. Er cydraddoldeb, byddai gan ymgeisydd newydd sy'n Hep C Cam 1 hawl i gyfandaliad o £50,000.



Byddai buddiolwr sy'n symud o Gam 1 Hep C i Gam 2 Hep C yn cael cyfandaliad ychwanegol o £20,000.

Byddai ymgeisydd newydd sydd eisoes wedi datblygu i Hepatitis C Cam 2 yn derbyn cyfandaliad o £70,000.

Byddai gan ymgeisydd newydd sydd â HIV hawl i gyfandaliad o £80,500. Pe bai ganddynt HIV a Hep C Cam 1 cyd-heintiedig, y cyfandaliad fyddai £80,500 + £50,000 = £130,500 a byddai Cam 2 yn £80,500 + £70,000 = £150,500. Telir cyfandaliad untro annewisol o £10,000 hefyd i briod/partner/perthynas dibynnol mewn profedigaeth neu ystad buddiolwr heintiedig a fu farw i gynorthwyo gyda chostau angladd.

Mae WIBSS hefyd yn gwneud taliadau rheolaidd i wŷr a gwragedd/partneriaid/perthnasau dibynnol profedigaethus buddiolwr heintiedig sydd wedi marw. Mae'r taliadau hyn yn gyfartal i 100% o'r gyfradd yr oedd y buddiolwr ymadawedig arni adeg y farwolaeth am flwyddyn a 75% o'r gyfradd wedi hynny.

## Taliadau Plant 2024-25

Cyflwynwyd taliadau plant gan Lywodraeth Cymru, drwy Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru, yn weithredol o 1 Ionawr 2023. Dim ond i'r buddiolwyr hynny yng Nghymru y mae'r taliadau yn ôl disgresiwn hyn ar gael, a thrwy brawf modd i fuddiolwyr EIBSS.

Bwriedir y taliad ar gyfer gofal a chymorth i blentyn/plant, hyd at 18 neu 21 oed, os ydynt mewn addysg amser llawn, sydd naill ai'n blentyn biolegol neu'n rhan o aelwyd buddiolwr heintiedig.

Taliadau plant Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yw £3,000 ar gyfer y plentyn cyntaf, a £1,200 ar gyfer yr ail blentyn a phlant dilynol.

Ar 31 Mawrth 2025, bydd cyfanswm cost taliadau plant yn £72,000. Mae hyn yn ymwneud â 30 o blant a dalwyd i 20 o fuddiolwyr. Mae taliadau'n cael eu talu'n fisol neu'n chwarterol.



# Strwythur Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru

Mae tîm Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru o ddydd i ddydd yn cynnwys wyth aelod o staff, dan arweiniad Rheolwr Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru.

**Alison Ramsey**
Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
PCGC

**Viv Cooper**
Cyfarwyddwr gweithrediadau
Canolfan Ganser Felindre

**Mary Swiffen-Walker**
Rheolwr WIBBS

## Seicoleg a Llesiant

**Caroline Coffey**
Seicolegydd Clinigol

**Julie Armytage**
Cynghorwr

## Cyllid

**Stefan Dakovic**
Swyddog cyllid

## Hawliau Lles

**Hayley Price**
Rheolwr Hawliau Lles, Dirprwy Reolwr WIBSS

**Rebecca O'Callaghan**
Cynghorydd Hawliau Lles

**Ryan Clappe**
Cynghorydd Hawliau Lles

**Shelley Robson**
Cynghorydd Hawliau Lles (dros gyfnod mamolaeth)

## Cefnogaeth weinyddol

**Daniel Murphy**
Swyddog Cymorth

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
Wales Infected Blood Support Scheme

# Adroddiad Cyllid

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwariant hawliadau ar gyfer 2024-25. Nid yw ffigurau cymharol 2023-24 yn cynnwys y taliadau iawndal dros dro ychwanegol ar gyfer pobl heintiedig neu i ystadau a gyhoeddwyd yn 2024/25.

Cadarnhaodd y cyhoeddiad cyntaf gan Lywodraeth y DU ar 17 Awst 2022 y byddai taliad iawndal dros dro o £100,000 yn cael ei dalu i fuddiolwyr partner heintiedig cofrestredig a phartneriaid mewn profedigaeth o Gynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig y DU. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ar 21 Mai 2024, cyhoeddwyd taliad iawndal dros dro ychwanegol o £210,000 a fyddai'n cael ei dalu i'r holl fuddiolwyr heintiedig byw.

Mae'r costau hyn yn cynnwys taliadau i weddwon a thaliadau grantiau bach.

| Gwariant ar Hawliadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Nifer y Buddiolwyr | 231 | 225 |
| Taliadau Rheolaidd | £8,348,078 | £7,789,344 |
| Taliadau Iawndal Dros Dro o £100,000 | £800,000 | £700,000 |
| Taliadau Iawndal Heintiedig Byw Ychwanegol o £210,000 | £38,850,000 | £0 |
| Taliadau Iawndal Dros Dro i Ystadau ac Ad-dalu Costau Cyfreithiol | £3,100,609 | £0 |
| **Cyfanswm Taliadau i Fuddiolwyr** | **£51,098,687** | **£8,489,334** |

Sylwch fod y ffigurau uchod wedi bod yn destun newidiadau yn ystod y flwyddyn, h.y. ceisiadau newydd, marwolaethau yn ystod y flwyddyn, symud o un cam i'r llall, ceisiadau ad hoc ac ati.

Mae PCGC yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar ragolygon i Dîm Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith o weinyddu'r cynllun h.y. gwariant ar hawliadau, yn niwtral o ran cost i PCGC a Chanolfan Ganser Felindre, oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynllun yn llawn.

## Costau rhedeg yn ystod 2024/25

Mae crynodeb o'r costau rhedeg yn ystod 2024-25 wedi'i nodi isod gyda chymhariaeth ar gyfer 2023–24:

| Costau Rhedeg Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Cyflogau | £297,177 | £223,919* |
| Gwariant | £13,131 | £13,880 |
| **Cyfanswm** | **£310,308** | **£237,799** |

**Mae'r cynnydd mewn costau cyflog ar gyfer 2024/25 oherwydd dyfarniad cyflog y GIG ym mis Hydref 2024, ac oherwydd arbedion yn 2023/24 o swyddi gwag ac absenoldeb mamolaeth.*



# Adroddiad Perfformiad

***Mae perfformiad Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'i nodi isod.***

| Disgrifiad o'r dangosydd perfformiad allweddol | Targed 24/25 | Statws |
|---|---|---|
| Ymateb i ohebiaeth Llywodraeth Cymru a Chyffredinol o fewn terfynau amser penodedig | O fewn 4 diwrnod gwaith | 100% |
| Ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfynau amser gofynnol | Yn unol â pholisi'r Ymddiriedolaeth | 100% |
| Delio â cheisiadau o fewn yr amserlenni gofynnol | O fewn 28 diwrnod o dderbyn gwybodaeth gyflawn | 100% |
| Delio ag apeliadau o fewn terfynau amser penodol | O fewn pedwar mis i hysbysiad o fwriad i apelio. Cyflwynwyd pedwar apêl. Oherwydd pwysau yn GIG Cymru, cymerodd yn hirach nag arfer i gynnull panel apêl oherwydd argaeledd y gweithwyr meddygol proffesiynol angenrheidiol, felly arhosodd un o'r apelwyr yn hirach na'r amserlen ofynnol. Fodd bynnag, cysylltwyd â hi'n rheolaidd i'w hysbysu am y cynnydd. | 75% |
| Taliadau a wneir yn brydlon | 100% o daliadau i'w gwneud 0–2 ddiwrnod cyn y dyddiad dyledus | 100% |



| Disgrifiad o Hawliau Llesiant Allweddol Dangosyddion. | Statws |
|---|---|
| Cyfanswm yr achosion Hawliau Llesiant a agorwyd yn y 12 mis blaenorol | » 51 |
| Incwm a Gynhyrchir ar gyfer buddiolwyr (1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024) | » £31,481 |
| Canlyniadau sy'n weddill Mawrth 2024 | » 1 Credyd Cynhwysol<br>» 2 Daliad Annibyniaeth Personol wedi'u hadnewyddu<br>» 1 Taliad Annibyniaeth Personol<br>» 1 Ailystyriaeth Orfodol |
| Apeliadau ac Atgyfeiriadau ymlaen | » 8 Atgyfeiriad i Wasanaeth Llesiant Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru<br>» 8 Llythyr Cymorth Morgeisi<br>» Atgyfeiriad at Rwydwaith Eiriolaeth y De-orllewin<br>» 1 Apêl Taliad Annibyniaeth Personol<br>» 2 atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol |

## Ceisiadau Newydd am Gymorth Ariannol

Derbyniodd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru 33 cais yn 2024-25.

| Math o Gais | Ceisiadau a dderbyniwyd | Canlyniad |
|---|---|---|
| Hepatitis C Cam 1 | 18 | Derbyniwyd 7, Gwrthodwyd 11 |
| Hepatitis C Cam 1 pan fu farw'r sawl sydd wedi'i heintio | 10 | 1 Wedi'i dderbyn, 4 yn aros am ragor o wybodaeth, 5 Wedi'u gwrthod |
| Hepatitis C Cam 2 | 1 | Gwrthodwyd 1 |
| Hepatitis C Cam 2 lle mae'r sawl sydd wedi'i heintio wedi marw | 2 | 2 Yn aros am ragor o wybodaeth |
| Hep C Cam 1+ | 2 | Derbyniwyd 2 |
| **Cyfanswm** | **33** | **Derbyniwyd 10, Gwrthodwyd 17 a 6 arall yn aros am ragor o wybodaeth** |

Pan fydd cais yn cael ei wrthod, bydd hynny oherwydd nad yw'n bodloni'r meini prawf a osodwyd yng Nghyfarwyddiadau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, neu nad oes digon o dystiolaeth wedi'i darparu i gefnogi'r cais.

I weld y Cyfarwyddiadau, ewch i Wefan Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru

Hafan - WIBSS (www.gig.cymru).

Arweiniodd y cyhoeddiad ynghylch y taliadau iawndal interim a'r sylw cysylltiedig yn y cyfryngau, at gynnydd yn nifer yr ymholiadau am y gwasanaeth a buddiolwyr newydd, a oedd wedi'u cofrestru ag un o'r cynlluniau gwaddol, ond nad oeddent wedi trosglwyddo i Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn 2017 pan sefydlwyd y cynllun.



## Cynllun Grantiau Cymorth a Chefnogaeth

Yn 2024-25 cawsom 5 cais am gymorth o'i gymharu â 6 chais yn 2023-24.

Mae lefel y ceisiadau am grantiau bach wedi aros yn gyson ar draws y ddwy flynedd.

# Gwasanaeth Hawliau Llesiant

## Ceisiadau gan Ystadau

Fel y nodwyd uchod, ym mis Hydref 2024 cyflwynodd Llywodraeth y DU gynllun i wneud taliadau iawndal dros dro i ystadau pobl a oedd wedi'u cofrestru gyda chynllun cymorth ond a fu farw cyn derbyn taliad iawndal.  Cynorthwyodd y tîm lles gyda phrosesu'r ceisiadau ystad hyn drwy wirio bod y cais wedi'i gwblhau'n iawn, bod yr holl dystiolaeth ofynnol wedi'i chynnwys, cofnodi'r cais ar daenlen fonitro, gwirio bod yr ymadawedig heintiedig wedi'i gofrestru gyda chynllun gwaddol neu IBSS, gwirio gyda'r swyddfa brofiant a oedd y profiant yn cyfateb a chyhoeddi'r llythyrau priodol.

Roedd y tîm lles hefyd yn delio â cheisiadau am gymorth ar sut a ble i ddod o hyd i'r ffurflenni cais, sut i wneud cais am brofiant a pha dystiolaeth oedd ei hangen i gefnogi cais.



## Yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA)

Roedd y tîm lles hefyd yn derbyn galwadau rheolaidd ynghylch IBCA. Roedd buddiolwyr yn teimlo'n rhwystredig ynghylch y  diffyg gwybodaeth canfyddedig am yr hyn oedd yn digwydd. Roedd rhai yn pryderu am faint o iawndal y gallent ei gael, yn seiliedig ar y gyfrifiannell ar wefan IBCA. Cawsom alwadau ffôn gan fuddiolwyr hefyd ynglŷn â diweddariadau a gawsant gan IBCA, a'u bod yn teimlo nad oedd y diweddariadau bob amser yn hawdd eu deall. Roedd rhai unigolion hefyd yn ffonio ynghylch Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru "yn cau" ym mis Ionawr 2026.  Roeddent yn teimlo'n bryderus iawn am y newidiadau a'r hyn y byddai'n ei olygu iddyn nhw.  Lle roedd yn briodol, roedd y tîm lles wedi p atgoffa pobl am y gwasanaeth seicoleg ac wedi argymell bod pobl yn cysylltu â nhw os oes angen cymorth arnynt.

## Gwaith allweddol

Parhaodd y tîm lles i dderbyn galwadau gan unigolion a oedd eisiau cymorth neu gyngor ar faterion gan gynnwys y newid i Gredyd Cynhwysol, gwiriadau budd-daliadau cyffredinol i sicrhau eu bod yn derbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys ar eu cyfer, gyda chymorth i gael cofnodion meddygol, a chefnogaeth emosiynol. Os oedd angen cefnogaeth emosiynol ar unigolyn, byddent yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth llesiant a seicoleg.

## Cylchlythyr

Anfonwyd cylchlythyrau bob chwarter at bob buddiolwr a oedd wedi dewis eu derbyn. Fe'u hanfonwyd yn electronig neu drwy'r post, yn dibynnu ar ddewis.

Roeddent yn parhau i fod ar gael ar wefan Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru.

[Hafan - WIBSS (www.gig.cymru).](https://www.gig.cymru)




**Roedd cylchlythyrau eleni yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:**

- Cyfraddau Talu Diwygiedig
- Cymorth gyda Chostau Ynni a Dŵr
- Cymorth Hawliau Lles
- Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant
- Diweddariadau gan yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig
- Dyddiad cau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
- Gwybodaeth am Dwyll a Sgamiau
- Credyd Pensiwn
- Gwybodaeth am Ddiogelwch Arian



# Astudiaeth Achos A

***Cysylltodd Buddiolwr A â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru i drafod ei daliadau cymorth a'i lwfans tanwydd gaeaf.***

Fe wnaethon ni gynorthwyo A i ddeall ei daliadau gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru. Fe wnaethon ni gynnig cwblhau Cyfrifiad Budd-dal Cyflym. Ar ôl cwblhau'r cyfrifiad, cynghorwyd A y gallai hawlio; Credyd Pensiwn, gostyngiad pellach yn y Dreth Gyngor oherwydd bod yr hawliad presennol yn anghywir, a Budd-dal Tai. Dywedodd A ei fod wedi ceisio hawlio Budd-dal Tai ond y bu'n aflwyddiannus.

Fe wnaethon ni gefnogi A i gyflwyno hawliad Budd-dal y Dreth Gyngor newydd a hawliad Budd-dal Tai newydd. Cymerodd amser i gael yr holl dystiolaeth berthnasol gan A oherwydd ei broblemau iechyd corfforol a meddyliol. Roedd bod mewn cysylltiad ag A yn rheolaidd yn golygu bod y tîm yn gallu nodi bod A yn ymddangos yn darged tebygol ar gyfer cam-drin ariannol ac roedd angen cymorth pellach yn y cartref. Hysbyswyd A gan y Tîm am eu pryderon ac y byddent yn gwneud atgyfeiriad at wasanaethau cymdeithasol oherwydd hynny. Cafodd A gyngor ar sut i amddiffyn ei hun rhag cam-drin pellach a chafodd gefnogaeth ychwanegol i fyw yn ei gartref ei hun.

Er bod y cais am Gredyd Pensiwn wedi bod yn llwyddiannus, cafodd yr hawliadau am Fudd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor eu hatal oherwydd marwolaeth A cyn iddo gael ei asesu.



# Astudiaeth achos B

***Cysylltodd Buddiolwr B â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ynglŷn â newid mewn amgylchiadau***

Arweiniodd newid mewn amgylchiadau Buddiolwr B at newid i Gredyd Cynhwysol (UC). Helpodd y tîm lles Buddiolwr B i lywio'r newid.  Roedd buddiolwr B yn symud i mewn gyda'i bartner. Cafodd y cleient gefnogaeth emosiynol gan y Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru gan fod B yn bryderus iawn am y newid i Gredyd Cynhwysol. Roedd B yn poeni y byddai'r taliadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn achosi problemau ac y byddai mewn gwaeth sefyllfa ar Gredyd Cynhwysol.

Cynhaliodd y tîm lles wiriad budd-daliadau i hysbysu B faint y byddai'n ei dderbyn. Cynhaliwyd ymweliad â'r cartref i gwblhau'r cais ar-lein.

Sicrhaodd y tîm lles fod staff yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n delio â'r Credyd Cynhwysol yn ymwybodol o daliadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ac y dylid eu hanwybyddu wrth asesu'r cais.

Roedd B yn bryderus iawn ynglŷn â mynd i'r ganolfan waith oherwydd y lle parcio cyfyngedig sydd ar gael a'i fod yn methu â cherdded yn bell iawn. Cefnogodd y tîm lles B i gael ymweliad cartref.

# Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant Emosiynol

Mae'r tîm yn cynnwys seicolegydd clinigol ymgynghorol a chynghorydd arbenigol sy'n brofiadol iawn o weithio gyda'r rhai sydd wedi'u heintio ac yr effeithir arnynt gan gynhyrchion gwaed halogedig. Ers sefydlu'r cynllun, maent wedi gweithio'n galed i ymgysylltu â chymaint o fuddiolwyr Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru â phosibl, a'r rhai sy'n agos atynt, i gael mynediad at yr opsiynau seicoleg a chwnsela y mae'r gwasanaeth yn eu darparu.

Mae'r tîm yn parhau i dderbyn hunanatgyfeiriadau am gymorth emosiynol ac ymholiadau gan wasanaethau allanol a darparwyr gofal iechyd. Mae gennym ni lwybrau atgyfeirio hawdd eu cyrchu ac rydym yn ymateb yn brydlon. Ar ôl eu hatgyfeirio, cynigir apwyntiad cychwynnol i fuddiolwyr a'r rhai sy'n agos atynt i asesu'r angen emosiynol presennol a'u priodoldeb ar gyfer y gwasanaeth. Ar hyn o bryd rydym yn cynnig ymyriad penagored a gynigir mewn ffordd gydweithredol, naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy alwad fideo.

Cefnogi cleientiaid yn emosiynol ac yn seicolegol drwy ddiwedd yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig fu'r flaenoriaeth glinigol yn y flwyddyn flaenorol.  Hefyd, rhagweld beth all y gwasanaeth ei gynnig i gleientiaid, ac ar raddfa ehangach, i fuddiolwyr a'r rhai sy'n agos atynt, ar lefel grŵp/cymuned os oes angen, gan ein bod yn cydnabod y gefnogaeth gan gymheiriaid y mae proses yr Ymchwiliad wedi'i darparu i rai. Rydym wrthi'n ystyried y ffordd orau y gallwn gasglu syniadau a meddyliau gan y rhai sydd wedi'u heintio a'u heffeithio ynghylch y camau nesaf o ran eu hanghenion emosiynol o ystyried argymhellion arfaethedig yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, cynlluniau ar gyfer iawndal ochr yn ochr â sefydlu'r IBCA.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried parhad rhan seicoleg a lles y gwasanaeth ar ôl cau WIBSS. Mae argymhelliad cryf gan y cynllun i'r agwedd hon o'r gwasanaeth barhau i weithredu oherwydd diffyg cefnogaeth seicolegol arbenigol a gynigir gan IBCA a'r berthynas barhaus y mae buddiolwyr a'r rhai sy'n agos atynt wedi'i chael â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru.



# Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2025-2026

***Bydd y cynllun gwaith yn ystod 2025–2026 yn cynnwys y canlynol***



- Parhau i ddarparu gwasanaeth WIBSS ymatebol i fuddiolwyr presennol.
- Rhoi gwybod i fuddiolwyr am unrhyw benderfyniadau sy’n codi o argymhellion yr Ymchwiliad a allai effeithio arnynt.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Swyddfa’r Cabinet ac IBCA i lywio penderfyniadau ynghylch ehangu’r corff newydd ac i hwyluso gweithrediad y broses iawndal a throsglwyddiad llyfn Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru i IBCA.
- Parhau i weinyddu Taliadau Gwaed Heintiedig Interim i Ystadau ar ran yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA), a gweinyddu’r taliadau ychwanegol i’r ystadau, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 21 Gorffennaf 2025.

Adroddiad Ychwanegol ar yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig: Datganiad Llafar i’r Senedd - GOV.UK

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

Diolch am ddarllen ein Hadolygiad Blynyddol. Os hoffech chi wybod mwy, ewch i'n gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu defnyddiwch y manylion cyswllt a nodir isod:


**E-bost**

wibss@wales.nhs.uk

**Ffôn**

02920 902280

**Mary Swiffen-Walker**

07970 601561

**Cyfeiriad**

Wales Infected Blood
Support Scheme,

4th Floor,
Companies House,
Crown Way,
Cardiff
CF14 3UB



*Dyluniwyd y ddogfen hon gan Dîm Cyfathrebu PCGC.*
*nwssp.communications@wales.nhs.uk*